

Hawdd ei Ddeall



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Helpu a chefnogi pawb i fod yn dda am reoli eu harian

www.llyw.cymru



Fersiwn Hawdd ei Ddeall yw hwn o ‘**Strategaeth Cynhwysiant Ariannol i Gymru 2016**’ Llywodraeth Cymru’

Mawrth 2016



Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon

Fersiwn hawdd ei ddeall yw hwn. Mae'r geiriau a'r hyn maen nhw'n feddwl yn hawdd i'w darllen a'u deall.



Efallai na fedrwch chi ddarllen a deall y ddogfen hon heb help. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.

Efallai bydd rhai geiriau yn anodd i'w deall. Mae'r rhain wedi cael eu hysgrifennu mewn **glas trwm** a dywedir beth maen nhw'n feddwl mewn bocs o dan y gair.

Os bydd unrhyw un o'r geiriau yn cael ei ddefnyddio eto yn y llyfryn bydd yn cael ei ddangos mewn **ysgrifennu glas cyffredin**. Os gwelwch chi eiriau mewn **ysgrifennu glas cyffredin**, gallwch edrych beth maen nhw'n feddwl yn Geiriau anodd ar dudalen 32.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Pan fydd y ddogfen yn dweud 'ni', mae hyn yn meddwl Llywodraeth Cymru.

I gael mwy o gopiau o'r fersiwn Hawdd ei Ddeall hwn cysylltwch â:



Tîm Cynhwysiant Ariannol
Is-adran Llywodraeth Leol a Chymunedau
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar, Merthyr Tudful
CF48 1UZ



E-bost: FinancialInclusion@wales.gsi.gov.uk



Cafodd y ddogfen hon ei gwneud yn Hawdd ei Deall gan Anabledd Dysgu Cymru gan ddefnyddio Photosymbols 5.

Cynnwys

Tudalen

Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon.....	2
Beth mae'r Gweinidog yn ddweud.....	4
Cyflwyniad	6
Beth sydd wedi bod yn digwydd?.....	8
Beth rydyn ni am ei weld yn digwydd	10
Beth sydd yn bwysig i ni	11
Eich helpu chi i reoli eich arian a chael borgen dda am bethau.....	13
Ei gwneud yn haws cael gwybodaeth a chynghor am reoli eich arian...	22
Cael pawb yng Nghymru i reoli eu harian yn dda	28
Beth nesaf?	34
Y pethau sydd angen i bobl feddwl amdany'n nhw.....	35
Geiriau anodd.....	38

Beth mae'r Gweinidog yn ei ddweud



Yn 2015 fe wnaethon ni ofyn beth oedd angen i Lywodraeth Cymru ei wneud i helpu a chefnogi pobl i reoli eu harian yn well.

Dywedodd llawer o bobl wrthyn ni beth roedden nhw'n feddwl. Fe wnaeth hyn ein helpu i benderfynu beth i'w wneud nesaf.

Mae arnon ni eisiau:



1. Ei gwneud yn haws i wybod ble i fynd i gael bargaen dda am bethau.



Er enghraifft, gwybod ble i fenthylg arian am bris rydych yn gallu ei fforddio. A gwybod sut i gael pethau fel cyfrif banc neu **yswiriant**.



Yswiriant ydy pan fyddwch yn talu arian i gwmni rhag ofn i rywbeth ddigwydd i chi nad ydych yn ei ddisgwyl. Pethau fel cael pethau wedi eu dwyn neu eich pethau yn cael eu dinistrio mewn llifogydd neu mewn tân.

Yna mae'r cwmni yn talu i chi gael pethau newydd.



2. Gwneud yn siŵr eich bod yn gallu cael gwybodaeth a chyngor am reoli arian. Mae hyn yn cynnwys cael cyngor pan fyddwch chi mewn dyled.



3. Helpu pobl i ddeall mwy am sut i reoli eu harian. Mae hyn yn meddwl y byddwch yn teimlo'n hyderus wrth benderfynu sut i ddefnyddio eich arian.



Mae angen in i weithio gyda'n gilydd fel bod pawb yng Nghymru yn rheoli eu harian yn well.



Lesley Griffiths AC, Gweinidog Cymunedau a Mynd i'r Afael â Thlodi.

Cyflwyniad



Rydyn ni am i bobl yng Nghymru allu rheoli eu harian yn dda.



Efallai eich bod yn rheoli eich arian yn dda iawn. Ond, pan nad oes gennych chi lawer o arian mae hi'n fwy anodd talu am bethau nad ydych chi wedi cynllunio ar eu cyfer.



Mae hyn yn gallu achosi mwy o broblemau arian nad ydych chi'n gallu delio gyda nhw. Mae'n anodd iawn i chi.

Os nad oes gennych chi lawer o arian, efallai ei bod yn anodd i chi wneud pethau fel:



- agor cyfrif banc



- benthg arian am bris rydych chi'n gallu ei fforddio



- cael yswiriant.

Rydyn ni am eich helpu i allu rheoli eich arian yn well. Mae hyn yn meddwl gallu:



- byw ar yr arian sydd gennych chi



- cynilo arian ar gyfer pethau sydd arnoch chi eisiau



- cael cynllun i dalu unrhyw arian sydd yn heb ei dalu.




Mae rhai o'r syniadau yn dibynnu ar gyrff y tu allan i Gymru. Er enghraifft, fe fyddwn yn edrych ar y ffordd orau i weithio gyda llywodraeth y DU ar newidiadau i fudd-daliadau.

Beth sydd wedi bod yn digwydd?



Fe wnaethon ni ysgrifennu ein cynllun diwethaf yn 2009. Mae problemau arian ar draws y byd yn 2008 a 2009 wedi cael effaith ddrwg yng Nghymru ar swyddi a chyflogau.




Mae rhai pobl yn ei chael yn fwy anodd nawr i dalu am filiau cartref, fel trydan a nwy. Efallai eu bod nhw wedi gorfod benthyg arian i dalu eu biliau.



Mae yna fwy o leoedd sydd yn gadael i chi fenthyg arian nawr, ar y rhynggrwyd ac ar y stryd fawr. Efallai y bydd rhai ohonyn nhw yn codi **llog** uchel.

Llog ydy'r pris mae'n rhaid i chi ei dalu am fenthyg arian.



Mae newidiadau i fudd-daliadau gan lywodraeth y DU wedi cael effaith fawr yng Nghymru.

Beth rydyn ni'n wneud yn barod?



Rydyn ni wedi gwneud llawer i geisio helpu pobl sydd â phroblemau wrth ddelio ag arian. Rydyn ni wedi ysgrifennu llawer o gynlluniau i helpu. Fel:

- **Cynllun Cydraddoldeb Strategol** - ein cynllun i drin pawb yn gyfartal
- **Cynllun Gweithredu Mynd i'r Afael â Thlodi**
- **Cynllun Gweithredu Tlodi Plant**



Rydyn ni'n gweithio gyda chyrff yng Nghymru i helpu pobl sy'n cael problemau i reoli eu harian.

Beth rydyn ni am ei weld yn digwydd

Rydyn ni eisiau i Gymru fod yn wlad lle rydych chi'n gallu:



dysgu am reoli eich arian. Fe fyddwch yn gallu dysgu yn yr ysgol neu yn y gymuned



cael gwybodaeth am reoli eich arian sydd yn hawdd ei deall. Fe fyddwch yn dysgu am reoli arian trwy gydol eich oes



cael eich cyfrif banc eich hun



benthyg arian am bris rydych chi'n gallu ei fforddio gan gyrff rydych chi'n gallu ymddiried ynddyn nhw



cael cefnogaeth i gynilo arian hyd yn oed os ydy e ond ychydig ar y tro. Fe fydd hyn yn help rhag ofn bod rhywbeth yn digwydd nad ydych chi'n ei ddisgwyl neu pan fyddwch yn ymddeol o'r gwaith



cael yr **yswiriant** rydych chi ei angen am bris teg.

Beth rydyn ni'n feddwl sydd yn bwysig

Er mwyn rheoli arian yn dda mae angen i chi:



- gwybod ble i fynd i gael borgen dda am bethau. Er enghraifft, gwybod ble i fynd i fenthyg arian ar bris rydych chi'n gallu ei fforddio. A gwybod sut i gael pethau fel cyfrif banc neu [yswiriant](#)



- cael gafael yn hawdd ar wybodaeth a chyngor am reoli eich arian. Mae hyn yn cynnwys cael cyngor pan fyddwch mewn dyled



- deall mwy am sut i reoli eich arian a chael hyder i ddefnyddio eich arian yn well.

Rydyn ni'n gwybod bod angen i rai pethau fod yn haws i chi. Fe fyddwn yn ceisio ei gwneud yn haws i chi:



- cael cyngor da wyneb yn wyneb, ar y ffôn neu am y rhyngrwyd



- cael gwybodaeth ar y rhyngrwyd neu mewn taflen



- darganfod gwasanaethau i'ch helpu gydag arian ble bynnag rydych chi yng Nghymru



- cael gwybodaeth neu gyngor yn y ffordd orau bosibl i chi ei ddeall.



Pan rydych chi yn delio â'ch arian mae yna bethau gwahanol i feddwl amdany'n nhw. Fe fydd gan bawb eu pryderon eu hunain.

Ar **dudalennau 35 i 37** rydyn ni wedi rhoi rhai enghreifftiau o beth y bydd angen i bobl feddwl amdany'n nhw wrth reoli eu harian.

Eich helpu chi i reoli eich arian a chael bargaen dda am bethau




Rydych chi angen arian i fyw o ddydd i ddydd. Mae rhai pobl yn defnyddio arian parod yn unig oherwydd mae hynny yn eu helpu i wybod faint o arian maen nhw'n gallu ei wario.



Mae'n costio mwy yn aml i dalu am bopeth mewn arian parod oherwydd mae rhai cwmnïau yn cynnig disgownt os ydych yn talu eich biliau trwy **ddebyd uniongyrchol**.



Debyd uniongyrchol ydy pan fyddwch chi'n dweud wrth eich banc i anfon taliadau yn rheolaidd i gorff arall. Fe fyddwch yn cytuno ar y symiau maen nhw'n eu cymryd a'r dyddiadau y maen nhw'n cymryd yr arian o'ch cyfrif banc.



Cyfrif Banc Trafodol

Efallai nad oes gennych chi gyfrif banc. Does gan bawb ddim cyfrif banc.



Efallai bod rhai pobl yn cael trafferth i gael cyfrif banc. Efallai bod hyn oherwydd eu bod wedi cael trafferth i reoli cyfrif banc yn y gorffennol neu am resymau eraill.

Mae nifer o fanciau nawr yn cynnig cyfrif banc sylfaenol a does dim cost am ei ddefnyddio. Mae cyfrifon banc sylfaenol yn **gyfrifon banc trafodol**.

Mae **cyfrif banc trafodol** yn meddwl eich bod yn gallu:

- cael arian wedi'i dalu mewn iddo – budd-daliadau neu o'ch gwaith
- cymryd arian allan pan fydd gennych arian yno
- talw biliau fel trydan a dŵr. Mae biliau yn fwy rhad pan fyddwch yn talu o gyfrif banc.





Cyfrifon gydag Undebau Credyd

Rydyn ni'n gweithio gydag **Undebau Credyd**.

Mae **Undebau Credyd** fel banciau ond yr aelodau sydd yn berchen arnyn nhw ac yn eu rhedeg.



Maen nhw'n defnyddio'r arian sydd ganddyn nhw i helpu aelodau i fenthylg arian ar **log** is a hefyd i gynilo mwy o arian.



Gallwch ddefnyddio cyfrif **Undeb Credyd** yn lle cyfrif banc. Efallai bod ganddyn nhw gyfrifon arbennig i'ch helpu i reoli eich rhent neu i'ch helpu i gyllidebu. Mae'r rhain yn cael eu galw yn gyfrifon 'pot jam' weithiau.

Ein haddewidion



Fe fyddwn yn gweithio gydag **Undebau Credyd** a chyrff tebyg. Fe fyddwn ni yn eu cefnogi gyda'u cyfrifon arbennig ar gyfer eich helpu i gyllidebu.



Fe fyddwn yn gweithio i'w gwneud yn bosibl i bawb gael cyfrif. Fe fyddwch yn cael cefnogaeth i ddewis pa fath o gyfrif sydd orau i chi. A chefnogaeth i'w defnyddio.

Cael arian parod

Efallai eich bod yn defnyddio peiriannau arian parod i gael eich arian. Mae **LINK** yn darparu'r rhan fwyaf o beiriannau arian parod yn y DU. Mae yna dros 3,000 o beiriannau LINK yng Nghymru.



Mae rhai peiriannau arian parod yn codi tâl arnoch chi am gymryd arian allan. Mae gan LINK rai peiriannau sydd ddim yn codi tâl arnoch chi am gymryd arian.

Fe fydd LINK yn ceisio rhoi'r peiriannau yma mewn lleoedd lle mae hi'n anodd darganfod peiriant am ddim.

Ein haddewid



Fe fyddwn yn gweithio gyda LINK fel bod peiriannau am ddim yn y lleoedd lle mae eu hangen.

Benthyg arian



Mae'r rhan fwyaf o bobl yn benthyg arian ar ryw adeg neu'i gilydd yn ystod eu bywyd. Weithiau mae arnoch chi angen prynu pethau hyd yn oed pan nad oes gennych chi arian i dalu amdanyn nhw.



I bobl sydd angen benthyg arian mae yna wahanol leoedd y maen nhw'n gallu mynd. Ond mae yna wahaniaethau mawr o ran faint rydych chi'n gorfod ei dalu am fenthyg arian.

Mae rhai lleoedd fel cwmnïau benthyg diwrnod cyflog yn gallu codi llawer o arian.



Dydy pawb sydd yn benthyg arian ddim yn gweithredu o fewn y gyfraith. Mae'r bobl yma yn cael eu galw yn 'fenthyciwr arian heb drwydded'. Maen nhw'n codi mwy hyd yn oed.

Rydyn ni am gwneud yn siŵr bod pobl yn dweud wrth yr heddlu am y benthycwyr yma er mwyn eu stopio.



Rydych chi'n gallu benthyg arian gan gyrff eraill sydd ddim yn codi cymaint o dâl. Rydyn ni'n cefnogi **Undebau Credyd** i roi cyngor da am arian.

Maen nhw'n hapus i chi fenthyg symiau bach. Efallai nad ydy banciau yn fodlon benthyg symiau bach yn unig.

Ein haddewid




Fe fyddwn ni'n gweithio gyda chyrff fel **Undebau Credyd** ac eraill. Fe fyddwn ni yn eu cefnogi nhw i'ch helpu chi i ddewis ffordd o fenthg arian y gallwch chi ei fforddio.

Fe fyddan nhw yn gwneud yn siŵr eich bod yn deall faint mae hi'n gostio i chi fenthg arian.

Ffyrdd eraill o fenthg i brynu pethau

Pan nad ydych chi'n gallu talu am rhywbeth ar unwaith gallwch chi:



- defnyddio cerdyn credyd



- defnyddio cerdyn siop



- prynu o gatalog neu o siop lle rydych chi'n gallu talu symiau bach yn ôl hyd nes y byddwch chi wedi talu yn llawn.



Mae angen i chi dalu beth sydd arnoch chi iddyn nhw bob mis neu fe fyddwch yn gorfod talu mwy. Mae'r dewisiadau yma yn gallu costio llawer o arian ac yn cymryd blynyddoedd i'w dalu'n ôl.



Dydy rhai pobl ddim yn deall faint mwy y byddan nhw wedi ei dalu yn ôl na chost beth maen nhw wedi ei brynu.



Cronfa Cymorth Dewisol (DAF)

Pan fydd pethau'n anodd gydag arian efallai y byddwch yn gallu defnyddio ein **Cronfa Cymorth Dewisol (DAF)**.



Mae'r DAF ar gyfer pobl sydd mewn argyfwng a heb arian i dalu am yr argyfwng. Mae hefyd yn eich helpu i aros yn annibynnol. Mae'n helpu pobl sydd â problemau mawr mewn bywyd fel:

- pobl sydd wedi bod yn y carchar
- pobl sydd wedi cael damwain
- pobl sydd yn sâl iawn neu yn anabl
- teuluoedd sydd yn gadael **cam-drin domestig**.



Cam-drin domestig ydy unrhyw fath o ymddygiad sydd yn annifyr, bwlio neu drais rhwng pobl mewn perthynas. Mae'n gallu digwydd i unrhyw un 16ed neu drosodd.

Rydych chi'n gallu cael eich anfon i DAF gan bobl fel gweithwyr cymdeithasol sydd yn gwybod beth rydych chi'n ei wynebu.

Ein haddewid



Fe fyddwn yn cael mwy o gyrff i weithio gyda ni ar DAF er mwyn helpu mwy o bobl. Fe fyddwn yn ei gwneud yn haws i wybod am DAF.

Cynilo



Pan nad oes gennych chi lawer o arian, mae hi'n gallu bod yn anodd talu am fyw bob dydd. A dydy pawb ddim yn gallu cynilo swm bach hyd yn oed. Mae hyn yn gallu gwneud bywyd yn anodd iawn pan fydd argyfwng yn digwydd.



I bobl sydd yn gallu cynilo ychydig bach bob wythnos, mae'n gallu helpu llawer. Efallai ei fod yn meddwl eich bod yn gallu delio ag argyfwng heb orfod benthycu arian sydd yn costio llawer.



Mae cyflogwyr yn gallu gweithio gydag **Undebau Credyd** i'ch helpu chi i gynilo. Neu i fenthycu arian yn rhad.

Mae **Undebau Credyd** yn gweithio gydag ysgolion hefyd. Maen nhw'n helpu plant a phobl ifanc i gynilo.

Ein haddewid



Fe fyddwn yn gweithio gydag **Undebau Credyd** i gefnogi cwmnïau i gael eu gweithwyr i'w defnyddio.



Fe fyddwn yn gwneud yn siŵr bod cwmnïau sydd yn darparu gwasanaethau i **gyrff sector cyhoeddus** yn meddwl am gynnig cynlluniau cynilo a benthycu undebau credyd i'w staff. Yna mae staff yn gallu gwneud taliadau i gyfrif cynilo neu ad-dalu benthyciad **Undeb Credyd** yn syth o'u cyflog.



Mae **cyrff sector cyhoeddus** yn darparu gwasanaethau i'r cyhoedd. Er enghraifft addysg, gwasanaethau cymdeithasol, iechyd a thai.

Yswiriant



Efallai eich bod yn meddwl bod **yswiriant** yn rhywbeth nad ydych chi'n medru ei fforddio. Ond efallai y bydd rhywun yn torri i mewn i'ch tŷ neu y byddwch yn cael lllifogydd. Mae **yswiriant** yn gwneud yn siŵr eich bod yn gallu cael pethau yn lle'r pethau rydych chi wedi eu colli.



Mae pobl sydd yn rhentu eu cartrefi yn llai tebygol o fod ag **yswiriant**. Mae rhai gwasanaethau tai yn cynnig **yswiriant** rhad i bobl yn eu lleoedd nhw.



Mae yna fathau eraill o **yswiriant** hefyd. Er enghraifft **yswiriant** car. Mae rhai cyflogwyr ac undebau llafur yn gallu eich helpu i gael **yswiriant**.



Os ydych yn dda gyda'r rhynggrwyd gallwch fynd i safleoedd sydd yn cymharu costau **yswiriant**.



Neu gallwch fynd at frocer **yswiriant**. Maen nhw'n eich helpu i gael **yswiriant** sydd yn dda i chi.



Mae arnon ni eisiau i wasanaethau cefnogi helpu pawb i feddwl am **yswiriant**. Mae hyn efallai yn meddwl edrych ar pam nad oes gennych chi **yswiriant** a'ch helpu i gael **yswiriant** da.



Ei gwneud yn haws i gael gwybodaeth a chyngor am reoli eich arian

Mae pawb angen gwybodaeth am reoli arian ar ryw adeg.

Mae'n bwysig deall bod yna 3 math o help:



1. **Gwybodaeth**, fel rheol mewn taflen neu ar y rhyngwrwyd. Mae'n rhoi ffeithiau sydd eu hangen arnoch i wneud penderfyniadau.



2. **Canllaw**, sy'n rhoi gwybodaeth bwysig i chi i'ch helpu gyda phenderfyniadau arbennig. Ond dydy canllaw ddim yn dweud beth ydy'r peth gorau i'w wneud.



3. **Cyngor**, sy'n cael ei roi gan bobl sydd yn gweithio gyda chi i'ch helpu i reoli eich arian.

Maen nhw'n eich helpu i edrych ar y pethau yr ydych yn gallu eu gwneud a helpu i benderfynu beth sydd orau. Maen nhw'n gallu eich helpu i wneud y pethau rydych chi'n penderfynu eu gwneud.

Dim ond pobl gyda hyfforddiant arbennig sydd yn gallu rhoi'r cyngor yma.

Gwybodaeth ar y rhyngwrwyd

Efallai eich bod yn dda ar y rhyngwrwyd ac yn edrych yno am help. Mae yna ddwy wefan dda:



www.moneymadeclearwales.org

www.moneyadvice.service.org.uk/cy

Maen nhw yn Gymraeg ac yn Saesneg. Maen nhw am ddim.



Ond mae yna lawer o wefannau eraill sydd yn codi tâl arnoch chi am help. Efallai nad oes ganddyn nhw ddiddordeb mewn rhoi'r cyngor gorau i chi. Maen nhw eisiau eich arian.

Ein haddewid



Fe fyddwn yn gwneud yn siŵr bod y wefan **Egluro Arian Cymru** a gwefannau tebyg yn dal i roi gwybodaeth dda.



Fe fyddwn yn meddwl am sut i wneud yn siŵr bod pawb yn gwybod am wefannau da fel y rhain. Ac yn gwybod sut i gael gwybodaeth dda os nad ydyn nhw'n gallu mynd ar y rhyngwrwyd.

Cyngor am ddim


Mae rhai pobl:



- yn ei chael yn anodd i ddeall arian a'i reoli
- angen help gyda chyllideb
- mewn dyled ac angen help i wybod beth sydd orau i'w wneud.



Rydych yn gallu cael cyngor am ddim gan rai cyrff. Mae angen i ni wneud yn siŵr eich bod yn gwybod ble i fynd i gael cyngor am ddim.



Mae angen i ni wneud yn siŵr eich bod yn gwybod ble i fynd os oes gennych broblemau arian.



Mae'n well gofyn am help cyn gynted â'ch bod yn sylweddoli bod gennych chi broblemau arian. Mae angen i ni wneud yn siŵr bod pobl sydd angen y cyngor yma yn ei gael.



Ein haddewidion

Fe fyddwn yn gwneud yn siŵr bod pawb yn gallu cael cyngor da am delio â harian.



Fe fyddwn yn gwylio sut mae pethau mae cyrff eraill yn eu gwneud yn gallu effeithio ar pa mor hawdd ydy hi i chi reoli eich arian.

Fe fyddwn yn ceisio newid pethau sydd ddim yn eich helpu ac yn annog pobl eraill i newid pethau hefyd.

Gwybod ble i fynd



Mae'n gallu bod yn anodd cyfaddef bod gennych broblemau ag arian. Efallai bod rhai pobl yn rhy falch neu bod ganddyn nhw gywilydd i ofyn am help.



Os ydy'r bobl o'r cyngor lleol neu'r gymdeithas tai yn dod i'ch gweld yn aml, efallai y byddan nhw yn sylwi eich bod yn poeni am reoli eich arian.


Os ydy'r bobl yma yn gwybod ble y gallwch fynd am help maen nhw'n gallu dweud wrthyich chi ble i fynd.



I wneud hyn maen nhw angen gwybodaeth dda am ble y gallwch fynd yng Nghymru i siarad gyda rhywun. Neu mae angen iddyn nhw wybod am wefannau da i ddweud wrthyich chi amdanyh nhw.



Rydyn ni wedi darganfod yr holl leoedd da yng Nghymru sydd yn helpu gyda phroblemau arian.



Rydyn ni'n ysgrifennu rhestr y bydd pawb yn gallu ei defnyddio. Fe fyddwch yn gallu dysgu am y lleoedd yma.

Ein haddewidion



Fe fydd gennym restr o'r lleoedd sydd yn rhoi cyngor da pan fydd gennych broblemau arian. Fe fyddwn yn cynllunio sut i'w diweddaru.



Dim ond y lleoedd sydd yn rhoi cyngor da ac yn annog eraill i wneud yr un fath y byddwn ni yn eu cefnogi.



Fe fyddwn yn annog [cyrff sector cyhoeddus](#) i hyfforddi eu staff ar ble i fynd am gyngor ar broblemau arian. Yna fe fydd eu staff yn gallu eich helpu chi i wybod ble i fynd.

Ei gwneud yn haws i fynd i weithio



Mae yna nifer o bethau sydd yn gallu ei gwneud yn anodd i chi fynd i weithio. Efallai bod yr arian sydd ei angen ar gyfer gwaith yn eich stopio.

Er enghraifft:



- costau gofal plant



- trafnidiaeth i fynd yno



- sut mae'n effeithio ar eich budd-daliadau.

Ein haddewid



Fe fyddwn yn edrych sut y gallwn weithio gydag eraill i gefnogi pobl i allu gweithio.

Cael pawb yng Nghymru i reoli eu harian yn dda

Er mwyn rheoli eich arian yn dda mae angen i chi:



1. fod eisiau rheoli eich arian yn dda
2. dysgu sut i reoli eich arian
3. dod yn hyderus am reoli eich arian.



Mae **Gwasanaeth Cynggori Ariannol Cymru** yn barod yn gweithio gyda llawer o gyrff eraill yng Nghymru i'ch helpu i ddod yn hyderus â'ch arian. Maen nhw'n dweud mai'r prif bethau i'w gwneud ydy:



- gwneud yn siŵr bod pawb yn cael cyfle da i ddysgu am reoli arian



- edrych ar beth sydd yn cael ei wneud nawr i helpu pobl i ddysgu am reoli eu harian



- edrych ar beth y gallwn ni ei wneud fel bod benthyg arian yn haws i'w fforddio



- cefnogi mwy o bobl i gael cyngor ar ddelio ag arian. Yn enwedig teuluoedd sydd â phlant ifanc a phobl hŷn.

Ein haddewid



Fe fyddwn yn cefnogi Gwasanaeth Cyngori Arian Cymru gyda'r gwaith maen nhw'n ei wneud.

Cynhwysiant Digidol



Cynhwysiant Digidol ydy gwneud yn siŵr bod pawb yn gallu defnyddio cyfrifiadur a'r rhwyngwyd.

Mae hyn yn bwysig ar gyfer rheoli eich arian oherwydd mae llawer o'r bargeinion gorau ar y rhwyngwyd.



Fe fydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn dysgu'r sgiliau i ddefnyddio cyfrifiaduron a'r rhwyngwyd yn yr ysgol.

Maen nhw wedi creu **Hwb**. Gwefan ydy Hwb gydag adnoddau dysgu i athrawon a disgyblion.

Ein haddewid



Fe fyddwn yn gwneud yn siŵr bod pobl yn gwybod bod **cynhwysiant digidol** yn bwysig i reoli arian. Fe fyddwn yn gwneud yn siŵr bod pobl yn meddwl am reoli arian pan fyddan nhw'n ysgrifennu cynlluniau ar gyfer **cynhwysiant digidol**.

Dysgu sut i reoli arian

Ysgolion



Mae plant a phobl ifanc yn dysgu am arian yn yr ysgol. Yn 2015 fe wnaethon ni ddechrau dysgu gwersi mathemateg newydd ac arholiadau newydd. Felly fe ddylai pobl ifanc 16 oed allu gweithio allan:



- faint o arian maen nhw ei angen i fyw o ddydd i ddydd



- faint mae'n rhaid iddyn nhw ei dalu yn ôl pan fyddan nhw'n benthyg arian



- faint o arian maen nhw ei angen ar gyfer gwyliau gartref neu dramor.

Ein haddewid



Fe fyddwn yn cefnogi ysgolion i ddysgu plant a phobl ifanc am arian. Fe fyddwn yn gwneud hyn trwy adnoddau, cyngor ac arweiniad.



Rydyn ni wedi gofyn i **Estyn** weld pa mor dda mae'r gwersi newydd yn yr ysgol yn mynd. Corff ydy Estyn sydd yn gweld pa mor dda mae ysgolion yn gweithio.



Undebau Credyd

Mae cyrff fel **Undebau Credyd** yn gallu helpu i ddysgu plant am arian. Maen nhw'n gallu cychwyn clybiau cynilo mewn ysgolion fel bod plant yn gallu dysgu cynilo.



Ein haddewid

Fe fyddwn yn cefnogi clybiau cynilo mewn ysgolion uwchradd.



Banciau a chwmnïau preifat

Mae rhai banciau a chwmnïau preifat eraill yn gallu helpu i redeg prosiectau ar ddysgu am arian. Fe fydd rhai o'r prosiectau ar gyfer pobl ifanc.



Ein haddewid

Fe fyddwn yn annog cwmnïau i redeg prosiectau sydd yn helpu pobl i ddeall sut i reoli eu harian yn well.

Teuluoedd



Mae gweithwyr ieuenctid yn dda am helpu i gefnogi pobl ifanc i ddysgu am fywyd ac arian. Yn enwedig am fenthyg arian a faint y mae'n gallu ei gostio.



Mae pobl ifanc yn mynd ymlaen i'r coleg neu yn dechrau gweithio pan maen nhw'n 16-18 oed. Mae pobl hŷn yn gallu mynd i'r coleg hefyd.



Efallai eu bod nhw angen help neu gefnogaeth ychwanegol i reoli eu harian pan fyddan nhw'n dysgu. Mae pobl mewn colegau sydd yn gallu rhoi gwybodaeth i'ch helpu gyda hyn, neu i ddweud wrthyich chi ble i fynd i gael mwy o gyngor.



Os ydy rhieni a gofalwyr yn gwybod sut i reoli eu harian yn dda, maen nhw'n gallu helpu eu plant i ddeall arian.



Mae rhai oedolion yn ei chael yn anodd i ddysgu sut i reoli arian. Efallai nad oes ganddyn nhw hyder neu maen nhw ofn dysgu pethau newydd. Mae modd trefnu cyrsiau arbennig i oedolion.

Ein haddewid



Fe fyddwn yn annog prosiectau ar gyfer rhieni, teuluoedd, plant a phobl ifainc i wella'r ffordd y mae pobl yn rheoli arian.

Gwneud y mwyaf o'ch arian



Mae yna wahanol ffyrdd o wneud y mwyaf o'ch arian a gwario llai.



Mae gwario arian ar bethau nad ydych eu hangen yn gallu ei gwneud yn anodd i fyw ar yr arian sydd gennych chi.



Efallai bod angen cefnogaeth arnoch chi i weld beth rydych yn gallu ei fforddio. Mae cyrff cynghori yn gallu eich helpu i wneud penderfyniadau am sut y gallwch wneud i'ch arian fynd ymhellach.



Mae rhai gwefannau ar y rhynggrwyd yn gallu eich helpu i dalu llai am bethau fel [yswiriant](#) neu drydan. Maen nhw'n cymharu prisiau gwahanol gwmnïau.



Rydych yn gallu cael talebau o'r rhynggrwyd i gael arian oddi ar bethau fel nwyddau mewn siopau neu brydau bwyd allan.

Ein haddewid



Fe fyddwn yn gweithio gyda chyrff i'ch helpu i ddeall sut i ddefnyddio'r rhynggrwyd i arbed arian.



Beth nesaf?

Fe fyddwn yn edrych ar beth mae angen i ni ei wneud i gadw ein haddewidion.



Fe fyddwn yn gwneud hyn yn 2016.

Beth mae angen i bobl feddwl amdano wrth reoli eu harian

Delio â phethau bob dydd	
Pethau y mae'r rhan fwyaf o bobl yn gorfod delio â nhw, dim ots faint o arian sydd ganddyn nhw	▪ Sut i wneud y mwyaf o'ch arian. ▪ Cael y fargen orau am bethau. ▪ Talu biliau. ▪ Talu rhent neu forgais. ▪ Talu treth os ydych yn gweithio. ▪ Talu i redeg car (treth, yswiriant, MOT, cynnal a chadw etc).
Pethau mae pobl yn fwyaf tebygol o dalu amdany'n nhw os oes ganddyn nhw fwy o arian	▪ Yswiriant arbenigol (os ydych yn mynd yn sâl neu yn methu gweithio, neu i adael arian i'ch teulu os ydych yn marw). ▪ Ysgolion preifat. ▪ Clwb chwaraeon neu glwb preifat. ▪ Gofal iechyd preifat. ▪ Cadw eich tŷ mewn cyflwr da.
Pethau y gall pobl sydd â llai o arian gael trafferth i dalu amdany'n nhw	▪ Yswirio eich cartref a phopeth ynddo. ▪ Gofal plant. ▪ Tripiâu ysgol. ▪ Mynd allan. ▪ Deintydd a sbectol newydd.

Cynllunio ymlaen

Pethau y mae'r rhan fwyaf o bobl yn gorfod delio â nhw, dim ots faint o arian sydd ganddyn nhw

- Cynilo arian.
- Benthyc arian.
- Pethau teulu mawr fel cynllunio priodas neu benderfynu cael babi.

Pethau mae pobl yn fwyaf tebygol o dalu amdany'n nhw os oes ganddyn nhw ragor o arian

- Pensiynau.
- Cynlluniau angladd ac ewyllysiau.
- Gofal pan fyddwch chi'n hŷn.
- Prynu tŷ neu adnewyddu eich cartref.
- Gwyliau.

Pethau y gall pobl sydd â llai o arian gael trafferth i dalu amdany'n nhw

- Prynu gwisg ysgol.
- Amseroedd arbennig fel Nadolig, penblwyddi, gwyliau ysgol.
- Gwyliau neu dripiâu diwrnod.

Delio â phethau heb eu cynllunio

Pethau y mae'r rhan fwyaf o bobl yn gorfod delio â nhw, dim ots faint o arian sydd ganddyn nhw

- Rhywun yn eich teulu yn marw.
- Ysgariad.
- Bod yn sâl iawn.
- Colli swydd.
- Cael babi.

Pethau sydd yn fwy tebyg o fod yn haws i bobl gyda mwy o arian

- Talu bil treth.
- Cael pethau yn lle eitemau drud sydd wedi cael eu difrodi pan nad oes gennych [yswiriant](#).

Pethau y gall pobl sydd â llai o arian gael trafferth i dalu amdanyh nhw

- Oergell neu beiriant golchi yn torri.
- Car ddim yn gweithio.

Geiriau anodd

Cam-drin domestig

Cam-drin domestig ydy cam-drin mewn teulu rhwng oedolion. Mae'n gallu digwydd i ddynion neu fenywod.

Cyfrif banc trafodol

Mae cyfrif banc trafodol yn meddwl eich bod yn gallu:

- talu arian i mewn i'r cyfrif – budd-daliadau neu arian o'ch gwaith
- cymryd arian parod allan pan fydd gennych arian yn y cyfrif
- talu biliau fel trydan a dŵr. Rydych yn cael biliau rhatach pan fyddwch yn talu.

Cynhwysiant Digidol

Mae cynhwysiant digidol yn golygu gwneud yn siŵr bod pawb yn gallu defnyddio cyfrifiadur a'r rhyngwrdd.

Cyrff sector cyhoeddus

Mae cyrff sector cyhoeddus yn darparu gwasanaethau i'r cyhoedd. Er enghraifft addysg, gwasanaethau cymdeithasol, iechyd a thai.

Debyd Uniongyrchol

Debyd uniongyrchol ydy pan rydych chi'n dweud wrth eich banc i anfon taliadau rheolaidd at gorff arall. Fe fyddwch yn cytuno ar y symiau maen nhw'n eu cymryd ac ar ba ddyddiadau y maen nhw'n eu cymryd.

Llog

Llog ydy'r pris rydych chi'n gorfod ei dalu i fenthylg arian.

Undebau Credyd

Mae Undebau Credyd fel banciau ond maen nhw'n eiddo i'r aelodau ac yn cael eu rhedeg ganddyn nhw. Maen nhw'n defnyddio'r arian maen nhw'n ei wneud i helpu aelodau i fenthylg arian ar log is ac hefyd i gynilo mwy o arian.

Yswiriant

Yswiriant ydy pan fyddwch yn talu arian i gwmni rhag ofn bod pethau'n digwydd i chi nad ydych chi'n ei ddisgwyl. Fel cael pethau wedi eu dwyn neu eich pethau'n cael eu dinistrio mewn tân neu lifogydd. Yna mae'r cwmni yn talu i chi gael pethau newydd.